

Ymateb Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ‘Taro’r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil Iaith Gymraeg’

26 Hydref 2017

1. Rhagymadrodd

Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ("HCPC") yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r HCPC yn rheoleiddiwr statudol ledled y DU o 16 o broffesiynau iechyd a gofal, a sefydlwyd i ddiogelu'r cyhoedd. I wneud hyn rydym yn cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol ("pobl cofrestredig"); yn gosod safonau ar gyfer mynediad i'n cofrestr; yn cymeradwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer cofrestru; ac yn prosesu pryderon lle gallai gweithiwr proffesiynol fod yn anaddas i ymarfer.

Mae ein rôl a'n swyddogaethau fel rheoleiddiwr statudol yn cael eu hamlinellu yn y Gorchymyn Rroffesiynau Iechyd a Gofal 2001 ac rydym yn atebol i Senedd y DU. Cawn ein rheoleiddio gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

Rydym yn rheoleiddio 15 proffesiwn ledled y DU a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Ar hyn o bryd mae gennym dros 357,000 o bobl cofrestredig, gyda thua 13,500 (llai na 4%) yn rhestru eu cyfeiriad cartref yng Nghymru. Mae mwyafrif helaeth y pobl cofrestredig yn byw yn Lloegr. Mae gennym un swyddfa yn Kennington, Llundain ac mae ein holl staff llawn amser parhaol yn gweithio yn y swyddfa hon.

Rydym yn cael ein cyllido yn llwyr trwy ffioedd cofrestru ein pobl cofrestredig ac ni dderbyniwn unrhyw arian cyhoeddus.

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a chyhoeddassom ein cynllun iaith Gymraeg cyntaf yn 2011. Mae hyn yn amlinellu ein hymrwymiad i'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y byddwn yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb. Ers hynny mae'r cynllun wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn Chwefror 2013. Yn 2015, paratossom adroddiad gwethuso cynhwysfawr o'r cynllun ochr yn ochr â chynllun gweithredu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cyfnod 2015-17.

Rydym ar hyn o bryd yn aros am ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Safonau iaith Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Ymatebasom i'r ymgynghoriad hwn yn Hydref 2016, lle bu i ni fynegi ein pryderon y gallai'r Safonau yn y ffurf yr ymgynhorwyd arnynt gael goblygiadau arwyddocaol i ni, oedd ddim yn gymesur na rhesymol. Yn ychwanegol, mae'r PSA ar hyn o bryd yn adolygu safonau rheoleiddio da, y mae'n rhaid i ni lynu atynt. Maent wedi cynnig cynnwys safonau sy'n cwmpasu hygrychedd gwybodaeth, llywodraethiant a chydaddoldeb. Pe byddent yn cynnwys y rhain yn y dyfodol, mae'r potensial am ddyblygu gyda safonau iaith Gymraeg, y byddem yn

dymuno osgoi. Rydym wedi fframio ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn gyda'r pryderon hyn dan sylw.

Croesawn ymgysylltiad gweithredol Llywodraeth Cymru gyda ni a rheoleiddwyr eraill trwy gydol y broses o ddatblygu Safonau newydd ac rydym yn eiddgar i barhau i fod yn rhan o'r deialog parhaol wrth i'r Papur Gwyn hwn symud ymlaen.

2. Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym wedi ystyried yr holl gwestiynau ymgynghori a gyflwynwyd yn y papur, ond rydym wedi canolbwyntio ein hymateb ar y cynigion a gyflwynwyd yn Rhan 3.

Cwestiwn 17 – Cynigiwn fod model diwygiedig o'r Safonau (Opsiw 2) yn cael ei addasu fel y dull gorau i sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau iaith Gymraeg. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Cytuno.

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn. Fodd bynnag, byddem yn awyddus i sicrhau bod HCPC yn dal i gael gwybod am unrhyw gynnydd ynglŷn â'i weithredu. Byddem yn disgwyl i hyn gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar sut y bydd Safonau yn cael eu hasesu o fod o "ychydig fudd cyhoeddus", a sut y bydd cyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau iaith Gymraeg yn cael mwy o gyfle i ymarfer barn resymol.

Hoffem nodi hefyd y credwn nad yw'r bwriad, a amlinellir ym mharagraff 152 y papur, "dros amser, y dylai pob corff gydgyfeirio tuag at yr un Safonau", yn debygol o fod yn realistig. Tra gallai hyn fod yn bosibl i gyrff yng Nghymru sy'n adrodd i Lywodraeth Cymru, i sefydliadau fel ninnau (gyda chyfrifoldeb ledled y DU, wedi ei leoli yn gorfforol yn Lloegr a chydag atebolrwydd i Senedd y DU) mae ein gallu i estyn cwmplas ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn debygol o fod yn llawer mwy cyfyngedig. Mae pobl cofrestredig Cymreig yn dal i fod yn gyfran fach iawn o'r cyfanswm nifer pobl cofrestredig (llai na 4%), fel y mae defnydd ein gwasanaethau iaith Gymraeg presennol, ac nid yw hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Cawn ein cyllido'n gyfan gwbl gan ffioedd ein pobl cofrestredig, ac felly mae'n rhaid cyllido unrhyw ychwanegiad at ein gwasanaethau trwy godi ffioedd cofrestru. Ar hyn o bryd felly mae gwelliannau arwyddocaol i'n gallu iaith Gymraeg wedi'u gwahardd gan gost. Yn lle hynny, cynigiwn fod Llywodraeth Cymru yn anelu bod pob corff yn cyrraedd safon iaith Gymraeg derbyniol; un sy'n adlewyrchu gallu'r gwahanol sefydliadau i wella eu capasiti iaith Gymraeg. Credwn hefyd fod angen i'r asesiad effaith ar gyfer y cynigion hyn ystyried yr effaith bosibl ar ein pobl cofrestredig yn well.

Cwestiwn 18 – Rydym wedi seilio ein dewis gynnig ar gyfer Safonau diwygiedig (Opsiw 2) ar sail eglurder, capasiti ar gyfer gwelliant a chostau'r newid ynghlwm â phob opsiwn (paragraffau 163–165). Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?

Cytuno.

Credwn mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn gorau, ar y seiliau hyn yn ogystal â'r hyblygrwydd cynyddol a roddir i gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau iaith Gymraeg. Credwn fod yr opsiynau eraill a gyflwynir yn fwy beichus a llai hyblyg, gan eu bod yn cynnig lleoli rhai Safonau mewn prif ddeddfwriaeth. Gan fod angen gweithredu Safonau iaith Gymraeg ar draws amrywiaeth eang o sectorau a sefydliadau – pob un â'u hadnoddau a chyfrifoldebau ynglŷn â'r iaith Gymraeg – mae lle i hyblygrwydd mewn gweithredu yn ystyriaeth bwysig wrth gynnig unrhyw ddiwygiad.

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r dosbarthiadau presennol o Safonau a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthynol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio iaith' (a fyddai'n berthynol i ddyletswyddau corfforaethol)?

Cefnogwn fwriad y cynnig (i ddarparu fframwaith cydlynol a chefnogi gwelliannau) ond nid yw'n glir i ni beth yw'r buddion o rannu'r pump dosbarth o Safonau iaith i Safonau a dyletswyddau cynllunio iaith. Ein barn ni yw fod y Safonau presennol yn gynhenid gydgysylltiedig, ac y gallai fod yn heriol i'w gwahanu.

Cwestiwn 20 – Ydych chi o'r farn y dylai darpariaethau perthynol i'r Gymraeg mewn Cynlluniau Strategol Addysg gael eu cynnwys o fewn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio iaith?

Dim barn.

Cwestiwn 21 – Oes unrhyw faterion eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio iaith?

Na.

Cwestiwn 22 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael pwerau cyffredinol i gynnal archwiliadau i sut mae cyrff yn ateb eu dyletswyddau iaith Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau yn ogystal â'r dyletswyddau cynllunio iaith?

Ansicr.

Tra'n bod yn cefnogi i'r Comisiwn arfaethedig gael rôl mewn cynnal archwiliadau o sut mae cyrff yn ateb eu dyletswyddau iaith Gymraeg, nid yw'n glir i ni beth fyddai'r newid dilynol mewn gwahanu gorfodi Safonau a dyletswyddau cynllunio iaith. Rydym yn bryderus y gallai hyn arwain at archwiliadau yn dod yn ddiangen o feichus ac yn ddyblygiad gwaith, heb fuddion clir.

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio iaith, yn hytrach na'u gorfodi?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 22.

Cwestiwn 24 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol; am osod Safonau ar gyrff naill ai trwy hysbysiad cydymffurfio neu fecanwaith arall?

Cytuno.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r holl reoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad?

Cytuno.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu Archwiliadau Safonau?

Cytuno (mewn egwyddor).

Cefnogwn symleiddio'r broses. Fodd bynnag, os yw Archwiliadau Safonau yn cael eu dileu yna mae'n aneglur sut fydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am gyrff cyn cynnig Safonau. Rydym yn bryderus y gellid cynnig Safonau sydd ddim yn realistig neu berthnasol i gorff penodol heb broses glir yn ei lle, ac felly bydd mwy o waith yn cael ei greu yn y cyfnod ymgynghori ar gost i Lywodraeth Cymru a'r rheiny sy'n ymateb i'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru i rannu codau ymarfer neu gyfarwyddyd perthynol i'r Safonau?

Cytuno.

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol trwy reoliadau heb yr angen am hysbysiad cydymffurfio neu fecanwaith arall o'r fath?

Cytuno (mewn egwyddor).

Byddem yn cefnogi'r cynnig hwn ar yr amod bod sicrwydd yn cael ei roi bod cyrff yn cael eu diweddarau'n briodol ac, os na wneir, yna ni fydd unrhyw ganlyniad negyddol i'r corff yn dilyn. Cefnogwn gynnwys proses ymgynghori well a'r hawl i herio gosod safon os yw'r cynnig hwn yn cael ei ddwyn ymlaen fel modd o liniaru unrhyw risg o'r fath.

Cwestiwn 29 – Pa ffactorau ddylem ni gymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn ddylem ni ddilyn er mwyn sicrhau bod y broses ar gyfer gosod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?

Dim barn.

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y byddai'n rhaid delio â chwynion trwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol yn gyntaf cyn y gall y Comisiwn iaith Gymraeg arfaethedig archwilio methiant honedig?

Cytuno.

Cwestiwn 31 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig bod rhaid i gyrff llynu at weithdrefn gwyno a gymeradwyir, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Model?

Anghytuno.

Rydym yn bryderus na fydd unrhyw gynnydd i greu un weithdrefn gwyno wedi'i chymeradwyo y mae'n rhaid i'r holl gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau iaith Gymraeg llynu ati yn ddigon hyblyg i adlewyrchu'r rhychwant llawn o sefydliadau ac unrhyw amrywiaeth mewn sut mae cwynion yn cael eu trin.

Nid yw'r HCPC yn cael ei reoleiddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ond yn cael ei oruchwylio gan y PSA. Rydym hefyd yn ardystiedig i safon Trafod Cwynion Bodlonrwydd Cwsmer ISO 10002, ac felly byddai angen i unrhyw weithdrefn gwynion arfaethedig a ddilynwn fod yn gydnaws â'r ardystiad hwn.

Rydym yn bryderus y byddai unrhyw ofyniad i ni llynu at weithdrefn gwynion a gymeradwyir yn arwain atom yn gorfod newid ein proses gwynion, neu orfod greu proses gwynion iaith Gymraeg benodol. Nid ydym yn ystyried y naill ganlyniad na'r llall yn gymesur. Rydym yn arbennig o bryderus am y gofyniad posibl i gyhoeddi cwynion iaith Gymraeg unigol, na theimlwn sy'n gymesur. Tra nad ydym yn derbyn swm uchel o gwynion iaith Gymraeg, nid ydym yn cyhoeddi'r fath wybodaeth ar ein gwefan ar hyn o bryd. Yn hytrach, cyhoeddwn adolygiad blynyddol o adborth a chwynion, sy'n myfyrio ar natur y cwynion a'u canlyniadau.

Cwestiwn 32 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig weithredu ymhellach yn unig ynglŷn â chwyn os yw'n credu bod y toriad Safon honedig neu weithdrefn gwynion yn ddifrifol?

Cytuno (mewn egwyddor).

Cefnogwn bob un o'r rhain, ac eithrio c. Rydym yn bryderus heb amserlenni realisitig i roi gwelliant yn ei le, y gallai hyn greu mwy o atgyfeiriadau nac a fwriadwyd. Fel sefydliad gyda chapasiti cyfyngedig am weithredu newidiadau traws sefydliad ar fyr rybudd, gallem fethu â chywiro toriad mewn pryd a chael ein cyfeirio felly at y Comisiwn o ganlyniad i 'doriadau niferus'. Rydym yn ystyried y dylid gofyn am amserlenni clir sydd wedi cael eu cytuno gan y ddau barti i fod yn rhesymol a chymesur, ac nad yw methiant i wella yn cael ei ystyried yn doriad difrifol oni bai fod yr amserlen wedi cael ei thorri.

Cwestiwn 33 – ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal archwiliad o'i ben a'i bastwn ei hun?

Cytuno (mewn egwyddor).

Ystyriwn fod y cynnig hwn yn llai beichus na'r model presennol, fodd bynnag byddai angen cyfarwyddyd ychwanegol arnom ar pryd y gall y Comisiwn arfaethedig gynnal archwiliad o'i ben a'i bastwn ei hun. Byddem hefyd yn dymuno cael sicrwydd bod deialog agored am y broses pe bai hyn yn digwydd.

Cwestiwn 34 – Ydych chi'n cytuno bod y gweithrediadau a amlinellir ym mharagraff 225 yn darparu rhychwant effeithiol o weithredu gorfodaeth?

Cytuno.

Cwestiwn 35 – Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac o dan rai amgylchiadau i geisio gorchymyn llys i ofyn i gorff gydymffurfio. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?

Cytuno.

Cwestiwn 36 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynglŷn â gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â Safonau?

Cytuno.

Cwestiwn 37 – Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ddelio ag apeliadau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Cytuno.

Cwestiwn 38 – Cynigiwn gyflwyno cam cyntaf gorfodol i'r Tribiwnlys mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn ynglŷn â gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn gofyn i'r Comisiwn roi caniatâd ar y sail fod gan gais siawns rhesymol o lwyddo neu reswm cymhellgar arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno.

Cwestiwn 39 – Ydych chi'n credu y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apeliadau yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Ydym.

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am ein gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Wrth i waith fynd rhagddo ar Fil yr Iaith Gymraeg, gobeithiwn gael ein cynnwys yn y ddeialog i ddatblygu'r sgwrs hon. Byddem yn hapus i gyfarfod i drafod ein hymateb yn fanylach yn ôl y galw.